

Annwyl rieni /warchodwyr

Ar ddiwedd gwyliau'r haf fel hyn, hoffwn gysylltu gyda chi unwaith eto, gan bwysleisio ein bod yn Ysgol Glan Clwyd yn barod, ac yn edrych ymlaen at groesawu pob un o'n dysgwyr yn ôl i'r ysgol ym mis Medi.

Rhannwyd llawer o wybodaeth gyda chi ar ddiwedd y tymor a gwerthfawrogaf nad yw diwedd tymor bob amser yr adeg gorau i rannu gwybodaeth. Felly er hwylustod rwy'n atodi gyda'r neges yma y llythyr a anfonais atoch fel Pennaeth ym mis Gorffennaf, ynghyd â Chanllaw Ailagor Medi 2020 Ysgol Glan Clwyd.

Mae'r Canllaw yn ddogfen bwysig i chi, gan ei bod yn cyflwyno gwybodaeth fanwl i chi am ein cynlluniau wrth ailagor. Rhaid cofio mai Medi 14eg yw'r dyddiad pwysig pan fydd yr holl disgyblion yn bresennol ar safle Ysgol Glan Clwyd gyda'i gilydd. Mae'r naw diwrnod cyn hynny yn rhan o'r cyfnod paratoi. Er hwylustod rwy'n cynnwys isod – allan o'r Canllaw - y llinell amser ar gyfer pob disgybl yn dychwelyd i YGC:

CA3		CA4		6ed Dosbarth
Wythnos 1				
Dydd Mawrth	01/09	Diwrnod Paratoi Staff Ysgol Gyfan		
Dydd Mercher	02/09	Diwrnod Paratoi Staff Ysgol Gyfan		
Dydd Iau	03/09	Blwyddyn 7	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12
Dydd Gwener	04/09	Blwyddyn 7	Blwyddyn 11	Blwyddyn 13
Wythnos 2				
Dydd Llun	07/09	Blwyddyn 8	Blwyddyn 10	Blwyddyn 12 a 13
Dydd Mawrth	08/09	Blwyddyn 9	Blwyddyn 10 a 11	Blwyddyn 12 a 13
Dydd Mercher	09/09	Blwyddyn 7 a 8	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12 a 13
Dydd Iau	10/09	Blwyddyn 7 a 9	Blwyddyn 10	Blwyddyn 12 a 13
Dydd Gwener	11/09	Blwyddyn 7, 8 a 9	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12 a 13
Wythnos 3				
Dydd Llun	14/09	Pawb yn ôl ar y safle		

Bu'r cyfnod cyn yr haf, pan gawsom gyfle i groesawu ein disgyblion yn ôl yn raddol i'r safle, yn gymorth i ni wrth baratoi ar gyfer mis Medi. Ond erbyn hyn rydyn yn awchu i gael ein disgyblion yn ôl yn yr ysgol yn dysgu, a hynny mewn amgylchedd gyfrifol a diogel.

Gwn y bydd nifer o rieni a disgyblion yn bryderu wrth ddychwelyd ym mis Medi ar ôl cyfnod estynedig gartref, **ond hoffwn bwysleisio ein bod yn disgwyl gweld yr holl ddisgyblion yn ôl yn yr ysgol. Er lles emosiynol ac addysgiadol ein disgyblion rydym angen eu gweld yn yr ysgol ac eto pwysleisio nad cyfnod dewisol, prawf yw hwn. Yn hytrach dyma'r normal newydd a'n dyletswydd ni yw sicrhau fod Ysgol Glan Clwyd yn 'covid-ddiogel' er mwyn i'ch plant gael ail-gydio yn eu haddysg uwchradd o ddifrif.** Er y bydd cefnogaeth emosiynol amlwg yn ystod y cyfnod dychwelyd ein prif nod wrth gwrs yw gweld ein ddisgyblion yn ôl a'n bod fel teulu Ysgol Glan Clwyd yn dysgu gyda'n gilydd unwaith eto.

Bydd cyfathrebu cyson gyda chi yn ystod y cyfnod nesaf hwn wrth i ni ailagor yn YGC. Mae gwybodaeth am yr ysgol a'r cyfnod Covid ar gael ar wefan yr ysgol:

<http://ysgolglanclwyd.co.uk/cyflwyniad/>

Ond hoffwn yma dynnu sylw at rai penawdau amlwg – er bod y Canllaw Ailagor yn cynnwys llawer mwy o fanylder:

Cludiant

Fel rhieni fe ddylech fod wedi derbyn pecyn gwybodaeth am gludiant ysgol gan Gyngor Sir Ddinbych. Mae protocol cadarn yn ei le sy'n sicrhau fod cludiant ysgol ar gael fel arfer i Ysgol Glan Clwyd. Mae'n bwysig eich bod fel rhieni yn trafod y protocol hwn gartref cyn i'ch plant ddefnyddio cludiant ysgol. Rydym wrth reswm yn disgwyl ymddygiad enghreifftiol wrth ddisgwyl am y bws yn y bore ac wrth deithio ar y bws bob amser.

Rhaid pwysleisio wrth gwrs fod gorchuddion wyneb 3 haen yn orfodol ar gludiant ysgol yn Sir Ddinbych ac felly mae angen sicrhau hyn ar gyfer eich plentyn. Byddant yn cael eu gwrthod ar y bws os nad oes ganddynt orchuddion wyneb.

Oriau ysgol

Nid oes unrhyw newid i amser y diwrnod ysgol yn Ysgol Glan Clwyd gyda'r diwrnod ysgol yn cychwyn am 9:00 i bob disgybl ac yn gorffen am 3:30.

Hoffem hysbysu rhieni na fydd mynediad i'r adeilad cyn 8:45 yn y bore felly ni ddylid gollwng disgyblion ar y safle yn gynnar.

Wedi dweud hyn mae amserlen y dydd yn wahanol i'r disgyblion gyda amseru gwersi disgyblion Blwyddyn 7, 8 a 9 ychydig yn wahanol i'r disgyblion hŷn, a hynny er mwyn sicrhau ein bod yn creu cyfnodau egwyl a chinio ar wahân iddynt.

Arlwyo

Ni fydd darpariaeth brecwast ar gael o gwbl yn yr ysgol yn y cyfnod cychwynol hwn o ailagor. Ond bydd y ddarpariaeth arferol ar gael adeg egwyl a chinio yn yr ysgol.

Mae'n hanfodol fod rhieni yn sicrhau fod gan ddisgyblion arian digonol ar y cyfrif ParentPay oherwydd ni fyddwn yn gallu derbyn arian parod yn yr ysgol o gwbl, ac ni fydd y peiriant talu ParentPay yn yr ysgol yn weithredol.

Atgoffir rhieni eto na fydd y ffynhonnau dŵr yn yr ysgol yn weithredol a bod angen sicrhau fod eich plentyn yn dod â photel bersonol i'r ysgol.

Mynediad i'r ysgol

Bydd mynediad/allanfa wahanol ar gyfer pob blwyddyn ysgol – a gwelir y manylion hyn yn y canllaw. Byddwn hefyd wrth gwrs yn defnyddio'r cyfnod cychwynol o ailagor i gyfarwyddo'n disgyblion gyda'r trefniadau hyn.

Gwisg ysgol

Nid oes unrhyw newid i'r wisg ysgol. Ym mis Medi pan fyddwn yn ailagor byddwn yn disgwyl pob disgybl yn yr ysgol mewn gwisg ysgol lawn a chywir.

Presenoldeb

Nodwyd eisoes fod disgwyl i bob disgybl ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi – ond rhaid pwysleisio na ddylai unrhyw ddisgybl fynd ar gludiant ysgol na dod i'r ysgol os oes awgrym o symptomau coronafeirws. Yn yr amgylchiadau hyn mae'n rhaid aros gartref, cysylltu gyda'r ysgol a threfnu prawf ar fyrder.

Byddwn yn cyfathrebu'n gyson gyda chi yn ystod y cyfnod hwn ym mis Medi a bydd diweddariadau pendant i'n cynlluniau. Wrth i mi yrru'r ohebiaeth hon atoch mae Llywodraeth Cymru yn ystyried priodoldeb gwneud gorchuddion wyneb yn orfodol mewn ysgolion uwchradd. Ond gan fod gorchudd wyneb yr orfodol ar gludiant i ni'n barod, dylai pob rhiant sicrhau fod cyflenwad o orchuddion/masgiau gennych ac felly ni fyddai newid pellach yn y maes hwn yn creu anhawster i chi.

Ond beth bynnag fydd yn newid yn ystod yr wythnosau nesaf byddwn yn Ysgol Glan Clwyd yn parhau i edrych ymlaen at groesawu eich plant yn ôl atom i'r ysgol – a hynny er mwyn i ni allu ail-gydio yn y dysgu yn gyfrifol ac yn ddiogel.

Yn gywir



Gwyn Tudur
Pennaeth